

# Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc i Gymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cymru Ifanc
Young Wales

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol - National Participation Standards -

# Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol i helpu cyrff ac unigolion i wneud yn siŵr bod proses, ansawdd a phrofiad unrhyw gyfranogiad yn dda i blant a phobl ifanc.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cefndir** | **3** |
| **Y Siarter** | **4** |
| **Poster y safonau** | **5** |
| **Datganiad y Siarter** | **6** |
| **Holiadur** | **7** |
| **Amserlen** | **8** |
| **Nod Barcud** | **8** |
| **Y Broses** | **9** |
| **Enghreifftiau o dystiolaeth** | **10** |
| **Hunan-asesu** | **13** |




# Cefndir

Cafodd y Safonau Cyfranogiad eu datblygu'n wreiddiol gan yr Uned Cyfranogiad. Erbyn hyn maent wedi cael eu hadnewyddu gan Cymru Ifanc a gweithwyr Fforymau Ieuenctid, wedi eu llywio gan ymgynghoriadau â phobl ifanc. Cafodd y gwaith hwn ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a nododd rôl y Safonau Cyfranogiad mewn canllawiau statudol.

Mae'r Safonau Cyfranogiad yn pennu'r materion allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonyn nhw wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Adolygodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Safonau Cyfranogiad bob un o'r saith Safon a sicrhaodd fod pob un yn adlewyrchu'r ethos ar sail hawliau sy'n gynhenid i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r Safonau hefyd yn cael eu hategu gan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfranogiad plant a phobl ifanc, oedolion a chymunedau wrth galon gwella llesiant, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o weithio.

- Mae canllawiau'r Ddeddf 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol' yn cyfeirio'n benodol at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc
- Mae canllawiau'r Ddeddf ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn pennu'r disgwyliad y byddan nhw'n mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wrth weithio gyda'u partneriaid, i alluogi llais ar gyfer plant a phobl ifanc.

Nid disgwyliadau newydd yw'r rhain. Mae Awdurdodau Lleol dan ddyletswydd i alluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc ers i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) gael ei basio yn 2010 ac mae canllawiau statudol yn eu lle ers 2012. Ymwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru â phob Awdurdod Lleol er mwyn deall sut mae'r canllawiau statudol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael eu gweithredu, i rannu arfer da.

Mae Cymru Ifanc a Plant yng Nghymru wedi gweithio i hybu ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad ymhlith yr holl gyrff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

# Y Siarter

**Yn ystod 2017 bu Cymru Ifanc yn gweithio ar ddau faes:**

1. Adnewyddu proses dyfarnu'r nod barcud i'r awdurdodau lleol hynny sy'n cynnal arolygiadau Siarter Cyfranogiad
2. Cenedlaethol newydd a fydd yn amlygu arferion Cyfranogiad lleol a chipio gwybodaeth sy'n cefnogi adrodd Cynlluniau Llesiant perthnasol yn y dyfodol

Erbyn hyn gall cyrff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wneud cais am Siarter Cyfranogiad oddi wrth Cymru Ifanc i'w dangos yn eu cyfleusterau. Bydd y broses gofrestru yn cynnwys ymrwymiad i ganiatáu i aelodau fforymau ieuenctid lleol ymweld â'r lleoliad i gynnal arolygiad byr, ar sail y safonau cyfranogiad.

Unwaith y flwyddyn, bydd Cymru Ifanc yn dweud wrth bob fforwm ieuenctid pa gyrff lleol sydd wedi cofrestru o dan y Siarter.

## Canllawiau'r Siarter

Mae'r siarter yn cael ei defnyddio gan gyrff a gwasanaethau i ddangos eu hymrwymiad i'r Safonau Cyfranogiad. Mae'n ddatganiad o fwriad eu bod yn gweithio yn unol â'r Safonau Cyfranogiad cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt gyflawni'r **Nod Barcud Cenedlaethol** er mwyn defnyddio ei logo.

Wrth gofrestru dan y Siarter caiff eich corff neu wasanaeth ei restru ar fap siarter Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc. Hefyd caiff eich manylion eu rhannu â thimau lleol dyfarnu'r nod barcud a fydd efallai'n gallu cynnig cefnogaeth a chyngor pellach i chi.

**Sylwch:** nid yw'r Siarter wedi ei hardystio gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n cymryd lle'r nod barcud cydnabyddedig.

I gwblhau'r siarter yma, llenwch yr holiadur isod.

Bydd blwyddyn bydd archwiliad sampl yn cael ei gynnal gyda rhai o'r cyrff er mwyn dangos cydymffurfiaeth. Mae'r Siarter yn para am **uchafswm o 2 flynedd** ac mae cyrff yn cael ailymgeisio am y Siarter. Hefyd caiff cyrff eu hannog i ystyried cofrestru am Nod Barcud y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae'r siarter hon yn seiliedig ar dri philer UNCRC sef **Amddiffyniad, Darpariaeth** a **Chyfranogiad**.

Mae'r siarter yma wedi ei hadeiladu ar y Safonau Cyfranogiad.




# Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc

# Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn"
**Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"
**Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)**

| Mae hyn yn golygu: | Byddwn ni: | | This means: | We will: |
|---|---|---|---|---|
| • Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus. | • Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.<br>• Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud. | 1 Gwybodaeth Information | • You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision. | • Provide information that is good quality, clear and accessible.<br>• Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make. |
| • Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi. | • Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan. | 2 Chi biau'r dewis It's your choice | • You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you. | • Give you enough support and time to choose if you want to get involved. |
| • Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg. | • Yn herio gwahaniaethu.<br>• Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc. | 3 Dim gwahaniaethu No discrimination | • Children and young people are all different and have the right to be treated fairly. | • Challenge discrimination.<br>• Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people. |
| • Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu. | • Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddifri.<br>• Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.<br>• Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig. | 4 Parch Respect | • You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected. | • Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.<br>• Work with you on things you say are important.<br>• Value what you have to offer. |
| • Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod.<br>• Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.<br>• Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif. | • Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus.<br>• Yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau chi. | 5 Bod ar eich ennill You get something out of it | • You have the right to learn and be the best you can be.<br>• You will have opportunities to work with others and make a difference.<br>• We want you to be involved in positive experiences. | • Work with you in safe, fun and enjoyable ways.<br>• Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills. |
| • Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrando ar eich syniadau chi. | • Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gytuno.<br>• Yn dweud wrthych chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.<br>• Yn dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf. | 6 Adborth Feedback | • You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to. | • Always ensure you have feedback in an agreed time.<br>• Tell you how your ideas have been used and why.<br>• Tell you what happens next. |
| • Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud. | • Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well.<br>• Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau. | 7 Gweithio'n well drosoch chi Working better for you | • Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do. | • Work with you and learn how we can do things better.<br>• Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions. |

**Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi**
**The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation**

Cymru Ifanc Young Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol · National Participation Standards



# Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc

# Siarter

Ar ran y sefydliad mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn cytuno i'r canlynol:

## CYFRANOGIAD

Fel sefydliad, byddwn yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu profiad uchel ei ansawdd ar gyfer pobl ifanc.

## AMDDIFFYN

Fel sefydliad, byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd ddiogel a phleserus gyda phobl ifanc yn unol â deddfwriaeth ac arferion recriwtio diogel.

## DARPARU

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n cael ei lywio gan safbwyntiau pobl ifanc ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion nhw.

Llofnod staff…

Llofnodwyd person/pobl ifanc…

Enw'r Sefydliad:

# Holiadur

Beth ydy enw'ch gwasanaeth?

Ym mha sir ydy'ch darpariaeth yn gweithredu?

Beth ydych chi wedi ei wneud fel gwasanaeth ers llofnodi'r Siarter i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o UNCRC a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i staff a phobl ifanc?

Fel gwasanaeth, pa arferion gweithio'n ddiogel ydych chi wedi eu hadolygu llofnodi'r Siarter? E.e. polisïau diogelu, polisïau diogelu dynodedig?

Pa brosesau ydy'ch gwasanaeth wedi eu defnyddio sy'n galluogi pobl ifanc i lywio cynlluniau a darpariaeth gwasanaethau ers llofnodi'r Siarter?

# Y Nod Barcud

## Pwrpas dyfarnu Nod Barcud ac arolygiadau

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wrth fonitro effeithiolrwydd datblygu cyfranogiad pobl ifanc o fewn eu sefydliadau. Mae hyn yn sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Mae'r Nod Barcud Cenedlaethol wedi ei ardystio gan Lywodraeth Cymru. Caiff tystysgrif (sy'n ddilys am 4 blynedd) ei dyfarnu i wasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflenwi yn erbyn pob un o'r saith Safon Genedlaethol. Fodd bynnag, os na fydd sefydliad yn llwyddo yn yr arolygiad, byddan nhw'n derbyn adborth gydag argymhellion sy'n rhoi manylion eu meysydd arfer da, a'u blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

# Y Broses

Mae modd defnyddio'r hunan-asesiad yn fewnol fel offeryn datblygiadol i fesur arferion cyfranogol. Cyn cwblhau'r hunan-asesiad, bydd yn rhaid i sefydliadau gofrestru am y Siarter yn y llyfryn hwn.

Mae'n rhaid i bob corff ddarparu o leiaf tri darn o dystiolaeth am bob Safon, gan amlygu gwaith sydd wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf. Gwelir enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth yn y tudalennau sy'n dilyn. Rhaid i bob Safon gael ei graddio gan ddefnyddio'r allwedd:

**Bwriadu** – rydych wedi nodi maes mae angen ei wella

**Datblygu** – rydych wrthi'n gweithio tuag at wella'r maes a gafodd ei nodi

**Cyflawni** – rydych wedi cyflawni neu yn cyflawni yn y maes yma.


**Sylwch:** i wneud cais am y Nod Barcud mae'n rhaid eich bod chi'n cyflawni yn erbyn pob Safon ac wedi cofrestru dan y Siarter.

Cewch chi gysylltu â'ch Tîm Arolygwyr Ifanc am wybodaeth bellach neu i ddechrau proses y Nod Barcud. Gallwch ddarganfod ble mae'ch tîm arolygwyr lleol ar wefan Plant yng Nghymru.



# Y Broses

Rhaid i Lywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru ac Awdurdodau Lleol hyrwyddo'r Safonau ym mhob sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Caiff hyn ei gyd-drefnu a'i reoli gan gynghorau neu fforymau ieuenctid statudol.




Gall cyrff ymgeisio eto am arolygiad Nod Barcud ar ôl tair blynedd.

# Enghreifftiau o Dystiolaeth

Enghreifftiau o dystiolaeth a all gael ei chyflwyno – nid rhestr gynhwysfawr yw hon:

## Gwybodaeth

**Byddwn yn darparu gwybodaeth sydd o ansawdd da, yn glir ac yn hygyrch.**

- Gwybodaeth gyfredol, yn briodol i oedran y plant, yn cael ei harddangos ac ar gael yn ddwyieithog neu mewn fformatau eraill yn ôl yr angen e.e. braille, gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy e-bost, testun, cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen.
- Gwybodaeth sydd wedi cael ei chynhyrchu gan bobl ifanc
- Enghreifftiau o geisiadau am wybodaeth benodol sydd wedi cael eu cyflawni.

**Byddwn yn rhoi gwybod i chi am bwy sy'n mynd i wrando ac yn gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud.**

- Cufnopdion cyfarfodydd lle roedd pobl ifanc yn cymryd rhan a thystiolaeth i'r rhain gael eu rhannu mewn amrywiaeth o ddulliau
- Defnydd ffurflen protocol, ffurflenni adborth, holiaduron am brofiad cyfranogwyr.
- Tystiolaeth o sut mae pobl ifanc yn gallu dylanwadu ar y ddarpariaeth e.e. ceisiadau am arian, prosiectau penodol, ac ati.
- Mae blychau awgrymiadau ar gael ac mae gweithdrefnau cwyno a rhoi adborth yn hygyrch i bobl ifanc.

## Chi biau'r dewis

**Byddwn yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.**

- Llythyron, negeseuon testun, calendr digwyddiadau
- Prawf bod amser yn cael ei roi i bobl ifanc gymryd rhan, eu bod yn cael gwybod ac yn gwneud penderfyniad. Tystiolaeth bod arferion gorau yn drech nag arferion ad-hoc ac yn osgoi symboleiddiaeth
- Astudiaeth achos neu enghraifft o ble mae cyflenwad wedi cael ei newid i ddarparu ar gyfer rhywun mewn amgylchiadau eithriadol, y mae ganddo/ganddi angen ychwanegol neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

## Dim gwahaniaethu

**Byddwn yn herio gwahaniaethu.**

- Sut mae ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal yn cael ei dangos gan staff, gwirfoddolwyr a phobl ifanc
- Enghreifftiau o sut mae'r ddarpariaeth yn dathlu gwahaniaeth, yn hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, polisi a gweithdrefn gwrth-fwlio
- Calendr o ddigwyddiadau sy'n cynnig gwelededd, yn codi ymwybyddiaeth ac yn dathlu gwahaniaeth (nodweddion gwarchodedig)
- Tystiolaeth oddi wrth bobl ifanc o pryd heriodd staff wahaniaethu
- Cod ymddygiad sydd wedi cael ei lunio gan bobl ifanc, sy'n mynychu'r ddarpariaeth, sy'n cael ei arddangos a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Rhaid i hwn gyfeirio'n benodol at barch.

**Darparu amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.**

- Rhowch enghreifftiau o sut mae'ch darpariaeth wedi darparu ar gyfer anghenion unigolyn, e.e. gweithio gyda nhw'n unigol, gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, ac ati.
- Dealltwriaeth berthnasol o unrhyw broblemau o ran tyndra neu gydlyniant yn y gymuned
- Staff yn dangos dealltwriaeth o sut mae nodweddion unigol yn gallu effeithio ar gyfranogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc
- Enghreifftiau o arferion adferol.

## Parch

**Byddwn yn gwrando ar eich barn, eich profiad a'ch syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif.**

- Mae fforwm pobl ifanc yn bresennol sy'n gynhwysol, yn gynrychioliadol (wedi ei ethol o bosibl) ac yn amrywiol lle bo'n bosib
- Blychau awgrymiadau, ffurflenni adborth
- Datganiad clir i genhadaeth a chylch gwaith am sut mae'r grŵp yn gweithio, e.e.
  - Parchu lleisiau pobl ac annog cyfranogiad gan amrediad o leisiau, holi pobl ifanc a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu parchu ac a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn gallu ei herio?
  - Oes tystiolaeth amlwg o gydberthnasau positif rhwng staff a phobl ifanc?
  - Ydy pobl yn deall eu rolau a'u ffiniau?
  - Ydy pobl ifanc yn teimlo wedi eu grymuso?
  - Ydy pobl ifanc yn teimlo bod ganddyn nhw unrhyw gyfrifoldebau yn y ddarpariaeth?
  - Ydy pobl ifanc yn cymryd rhan mewn unrhyw reolaeth neu is-grwpiau yn y prosiect/ sefydliad?
  - Ydy pobl yn ymwybodol o hawliau plant (UNCRC)?
  - Sut mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod pob person ifanc, hyd yn oed y rhai sy'n ymgysylltu llai neu'n cynnig eu barn llai, yn teimlo bod y sefydliad yn eu cynrychioli nhw ac yn parchu eu barn?
- Tystiolaeth o bolisi drws agored
- Tystiolaeth o gyfrinachedd ac ymddiriedaeth yn cael eu cynnal rhwng y staff a phobl ifanc lle bo'n briodol.

**Byddwn yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod yn bwysig.**

- Tystiolaeth o ymgynghoriadau a phrosiectau gydag adborth yn cael ei roi yn gyflym a chanlyniadau mesuradwy lle bo'n briodol
- Tystiolaeth bod gwaith yn cael ei deilwra i anghenion pobl ifanc.

**Byddwn yn gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych chi i'w gynnig.**

- Teilwra'r gefnogaeth sydd ar gael er mwyn i bawb sy'n cymryd rhan allu cyflawni a chael mynediad at gyfleoedd yn unol â'u hawliau a'r safonau cyfranogiad cenedlaethol
- Ydy pobl ifanc yn teimlo bod y ddarpariaeth wedi datblygu i weddu i'w hanghenion nhw?
- Ydy'r staff yn cydnabod ble dechreuodd pobl a pha mor bell maen nhw wedi teithio hyd yma – oes modd iddyn nhw roi enghraifft fel astudiaeth achos?
- Ydy pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hyd yn oed os nad ydyn nhw'n chwarae rhan weithgar mewn agwedd fesuradwy ar y ddarpariaeth, e.e. fforymau?

## Cael Budd Ohono

**Byddwn yn gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyl a phleserus.**

- Asesiadau risg priodol ar waith
- Staff a phobl ifanc yn ymwybodol o'r holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol
- Gwerthusiadau'n dangos bod pobl ifanc yn cael eu holi a ydyn nhw'n cael hwyl ac yn mwynhau'r ddarpariaeth.

**Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau.**

- Ydy pobl ifanc yn teimlo eu nod wedi datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hun o ganlyniad i weithio gyda'r sefydliad?
- Achrediad a thystysgrifau sy'n adlewyrchu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth
- Amrediad o weithgareddau mae pobl ifanc wedi lleisio eu barn arnyn nhw
- Gwobrau, tystiolaeth o'r pellter a deithiwyd, profiadau cymdeithasol.

## Adborth

**Byddwn bob amser yn sicrhau eich bod yn derbyn adborth mewn cyfnod a gytunwyd.**

- Mae'r staff yn gallu dangos proses glir pan ymgynghorwyd â phobl ifanc, cafodd camau eu cymryd, dwedwyd wrth bobl ifanc, ac mae hyn yn digwydd yn rheolaidd
- Mae'r staff yn rhoi enghreifftiau/prawf o sut mae adborth yn cael ei rannu; yn ddelfrydol drwy ddefnyddio dulliau gwahanol o ddosbarthu fel cyfryngau cymdeithasol, e-bost, negeseuon testun, ac ati.

**Byddwn yn dweud wrthych chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.**

- Yn cyfleu'r rhain mewn amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu cofnodi, e.e. cofnodion, negeseuon e-bost, hysbysfwrdd, ac ati.
- Yn holi pobl ifanc am eu profiadau gydag ymgynghoriadau:
  - Ydy pobl ifanc yn teimlo bod eu syniadau wedi cael eu mabwysiadu ac ydyn nhw'n gallu dweud wrthych chi am rywbeth sydd wedi newid?
  - Ydy pobl ifanc yn deall pam mae newid heb gael ei wneud?
  - Oedd yr adborth yn ddealladwy ac yn hygyrch? Os nad oedd, beth wnaeth y staff nesaf?
  - Ydy staff yn gallu rhoi enghraifft o amser pan gafodd neges heriol ei chyfathrebu i bobl ifanc – sut wnaethon nhw hynny a beth oedd yr ymateb?

**Byddwn yn dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf.**

- Mae'r staff yn rhoi tystiolaeth eu bod wedi cyfathrebu â phobl ifanc mewn amrywiaeth o ddulliau sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion gwahanol.

## Gweithio'n Well i Chi

**Byddwn yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut allwn ni wneud pethau'n well.**

- Ymgynghori, grwpiau ffocws, holiaduron, arolygon, ymyrraeth unigol a grŵp, myfyrio, gwerthusiadau, argymhellion, adroddiadau, ac yn y blaen.
- Hefyd dylai fod gweithdrefn gwyno weladwy y gall pobl ifanc ei defnyddio
- Dylai staff ddangos sut maen nhw wedi gweithredu agenda ar sail hawliau a barn pobl ifanc:
  - Sut mae'r sylwadau yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau cyflenwi strategol a gweithredol?
  - Sut fydd y ddarpariaeth yn monitro ac yn myfyrio ar newidiadau i wneud gwelliannau pellach/gwrthdroi newidiadau sydd heb fod yn effeithiol yn y dyfodol, ac ati.
- Pa Safonau yn benodol sydd wedi bod yn destun gwaith?
- Pa welliannau sydd wedi gweithio yn y gorffennol?
- Byddwn ni'n sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau
- Mae'r staff yn dangos tystiolaeth o sut maen nhw wedi gofyn i sampl cynrychioliadol o bobl ifanc am eu barn mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cefnogi hygyrchedd:
  - Sut cafodd ei defnyddio mewn cynlluniau strategol/ gweithredol?
  - Ydy staff yn gallu rhoi enghreifftiau o sut mae wedi cael ei raeadru i staff eraill a gwirfoddolwyr?
- Oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud? Are the pobl ifanc satisfied with these changes?
- Pa benderfyniadau sydd wedi cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan adborth pobl ifanc?



# Safonau Cyfranogiad
## Ffurflen hunan-asesu

**Enw**

| |
|---|
| |

**Sefydliad**

| |
|---|
| |

**Rhesymau pam rydych chi'n ymgeisio am y Nod Barcud**

| |
|---|
| |

Rhowch **o leiaf dri darn o dystiolaeth** am bob Safon, gan sicrhau bod pob pwynt ym mhob Safon yn cael ei drafod, yn y blychau sylwadau isod. Am enghreifftiau, ac am wybodaeth am ddefnyddio'r ffurflen hon, cyfeiriwch at y canllawiau uchod.

Graddiwch eich hun fel **Bwriadu, Datblygu** neu **Cyflawni** ar gyfer pob Safon.

Osgowch jargon ac acronymau gan y caiff y ffurflen hon ei darllen gan bobl ifanc. Uchafswm o 500 o eiriau am bob Safon.

# 1 Gwybodaeth

Mae gan bobl ifanc yr hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael iddyn nhw wneud penderfyniad gwybodus.

- ☐ **Bwriadu**
- ☐ **Datblygu**
- ☐ **Cyflawni**

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth sydd o ansawdd da, yn glir ac yn hygyrch? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i bobl ifanc am bwy sy'n mynd i wrando a gadael iddyn nhw wybod pa wahaniaeth y gallai eu cyfranogiad nhw ei wneud? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 2 Chi biau'r dewis

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw.

☐ **Bwriadu**
☐ **Datblygu**
☐ **Cyflawni**

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Ydy'r gwasanaeth yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i bobl ifanc ddewis a ydyn nhw eisiau cymryd rhan? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 3 Dim gwahaniaethu

Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.

- ☐ Bwriadu
- ☐ Datblygu
- ☐ Cyflawni

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | Tystiolaeth/Sylwadau | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn herio gwahaniaethu? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn darparu amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 4 Parch

Mae gan bobl ifanc yr hawl i leisio eu barn. Mae eich safbwyntiau'n bwysig a byddan nhw'n cael eu parchu.

- ☐ **Bwriadu**
- ☐ **Datblygu**
- ☐ **Cyflawni**

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn gwrando ar farn, profiadau a syniadau pobl ifanc ac yn eu cymryd o ddifrif? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ar bethau maen nhw'n dweud eu bod yn bwysig? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi beth sydd gan bobl ifanc i'w gynnig? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 5 Rydych chi'n cael budd ohono

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ddysgu a bod y gorau y gallan nhw fod.
Mae gan bobl ifanc gyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth.
Mae'r gwasanaeth yn dymuno i bobl ifanc gymryd rhan mewn profiadau positif.

☐ **Bwriadu**
☐ **Datblygu**
☐ **Cyflawni**

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio'n ddiogel gyda phobl ifanc mewn dulliau diogel, hwyl a phleserus? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar beth mae pobl ifanc yn ei wybod, ar yr un pryd â gwneud pethau i feithrin eu hyder a'u sgiliau? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 6 Adborth

Mae gan bobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaethau maen nhw wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrando ar eu syniadau.

☐ **Bwriadu**
☐ **Datblygu**
☐ **Cyflawni**

i **Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth bob amser yn sicrhau bod gan bobl ifanc adborth o fewn cyfnod a gytunwyd? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc am y ffyrdd mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio a pham? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc beth sy'n digwydd nesaf? | | |

☐ Pasio ☐ Methu

# 7 Gweithio'n well i chi

Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yn ganolog i bopeth maen nhw'n ei wneud.

☐ **Bwriadu**
☐ **Datblygu**
☐ **Cyflawni**

**Defnyddiwch y nodiadau canllaw.**

| | **Tystiolaeth/Sylwadau** | Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc |
|---|---|---|
| Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn dysgu sut mae gwneud pethau'n well? | | |
| Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd mae cynlluniau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud? | | |

☐ Pasio ☐ Methu